



Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales



Chartered Trading
Standards Institute
wales



Maniffesto Safonau Masnach Cymru 2026

Diogelu Cymru, Grymuso Cymunedau, Cryfhau Ein Heconomi

Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb Gweithredol	4
Cyflwyniad	5
Ynglŷn â Safonau Masnach Cymru	6
Pam Rydym yn Bwysig i Gymru	7
Thema 1: Cyllid tymor hir - Meithrin Cadernid ôl Degawd o Doriadau	9
Thema 2: Datblygu'r Gweithlu - Diogelu'r Genhedlaeth Nesaf	12
Thema 3: Atal a Phartneriaeth - Buddsoddiad wedi'i Glustnodi ar gyfer Blaenoriaethau Gorfodi Critigol	14
Thema 4: Integreiddio Economaidd - Cefnogi Twf a Marchnadoedd Teg	20
Galwad i Weithredu	23
Casgliad: Buddsoddi yn Nyfodol Cymru	24

Cysylltwch â ni

I gael rhagor o wybodaeth am y maniffesto hwn neu i drafod sut y gall Safonau Masnach gefnogi eich blaenoriaethau, cysylltwch â Safonau Masnach Cymru trwy ein gwefan: www.safonaumasnach.llyw.cymru

Cyhoeddir gan Safonau Masnach Cymru, yn cynrychioli 20 o wasanaethau Safonau Masnach awdurdodau lleol ledled Cymru

Mae timau Safonau Masnach ledled Cymru yn cyflenwi gwerth cyhoeddus eithriadol. Bob dydd, mae 294 o swyddogion yn amddiffyn defnyddwyr, yn cynnal marchnadoedd teg, ac yn cefnogi busnesau i ffynnu. Yn 2024-25, fe wnaethant atal dros £43 miliwn mewn niwed i ddefnyddwyr ar gyllideb o ddim ond £15.5 miliwn - tystiolaeth glir o effeithlonrwydd ac effaith. Ac eto mae'r cyflawniadau hyn yn cuddio gwasanaeth sy'n gweithredu ar ei derfynau ar ôl blynnyddoedd o doriadau i gyllid sydd wedi haneru'r gweithlu a rhoi straen ar gapasiti.

Fel Cadeirydd Safonau Masnach Cymru, rwyf wedi gweld y penderfyniad a'r dyfeisgarwch sy'n cynnal y gwaith hanfodol hwn: swyddogion yn rhyng-gipio nwyddau anghyfreithlon, yn dod ag adeiladwyr anghofrestredig a masnachwyr twyllodrus o flaen eu gwell, yn datgymalu grwpiau troseddau cyfundrefnol, ac yn cael gwared ar gynhyrchion anniogel o'r farchnad. Mae eu hymrwymiad yn cynnal diogelwch y cyhoedd ac uniondeb y farchnad, ond ni all ymroddiad ar ei ben ei hun gynnal gwasanaeth sydd mor ganolog i degwch a gwytnwch economaidd Cymru.

Mae Safonau Masnach Cymru yn uno ugain o wasanaethau awdurdodau lleol i rwydwaith cydgysylltiedig sy'n gorfodi safonau, yn rhannu cudd-wybodaeth, ac yn amddiffyn y rhai mwyaf bregus. Fodd bynnag, gyda 31% o swyddogion dros hanner cant a dim ond 7% o dan ddeg ar hugain oed, mae'r proffesiwn yn wynebu bwlch sgiliau brys. Er bod Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi elwa o fuddsoddiad sylweddol gan y llywodraeth mewn gorfodi a datblygu'r gweithlu, dim ond lefel ddibwys o gefnogaeth y mae Cymru wedi'i chael, gan ei gadael dan anfantais amlwg wrth fynd i'r afael â masnach anghyfreithlon a niwed i ddefnyddwyr. Nid yw ymyriadau cyllido tymor byr ar raddfa fach blaenorol wedi cynnig llawer o werth parhaol ac maent wedi methu â mynd i'r afael â'r materion capasiti a gwytnwch tymor hir sy'n wynebu'r proffesiwn.

Mae rhaglen fuddsoddi aml-flwyddyn wedi'i thargedu bellach yn hanfodol i ailadeiladu capasiti a sicrhau'r gweithlu ar gyfer y dyfodol. Mae tystiolaeth yn dangos bod pob £1 a fuddsoddir yn y gwasanaeth yn atal hyd at £12¹ mewn niwed i ddefnyddwyr a busnesau, gan gynhyrchu adenillion cymdeithasol ac economaidd go iawn. Wrth i etholiad Senedd 2026 agosáu, mae angen gweithredu trawsbleidiol. Nid yw diogelu defnyddwyr yn bleidiol - mae'n fater o degwch, diogelwch ac ymddiriedaeth y cyhoedd.

Mae Safonau Masnach wedi diogelu Cymru ers cenedlaethau, nawr mae'n rhaid i Gymru amddiffyn Safonau Masnach.

Jacqui Thomas

Cadeirydd Safonau Masnach Cymru

¹ Adroddiad Effaith a Chanlyniadau ACTSO (Cymru) 2023/24

Crynodeb Gweithredol



Ar ôl degawd o doriadau yn y gyllideb sydd wedi haneru capasiti Safonau Masnach awdurdodau lleol yng Nghymru - sy'n allweddol i ddiogelu defnyddwyr, marchnadoedd teg a diogelwch cymunedol – maent yn gweithio i'r eithaf ac yn wynebu colled enbyd o staff profiadol, gan adael y cyhoedd mewn mwy o berygl o sgamiau, cynhyrchion anniogel a throseddau cyfundrefnol. Heb gymorth brys a buddsoddiad wedi'i dargedu, mae perygl i Gymru golli amddiffyniadau hanfodol i ddefnyddwyr a busnesau, ond bydd camau pendant nawr yn sicrhau adenillion cymdeithasol ac economaidd mesuradwy a Chymru fwy diogel a thecach i bawb.

Argymhellion:

- Adfer Cyllid: Ymrwymo £15 miliwn ychwanegol dros bum mlynedd, gan flaenoriaethu iechyd y cyhoedd, diogelwch cynnyrch, atal sgamiau, lles anifeiliaid, safonau bwyd, a chymorth busnes.
- Buddsoddiad wedi'i Glustnodi: Gwarantu cyllid gwarchodedig ar gyfer materion allweddol:
 - Tybaco a Fêps Anghyfreithlon (£1-2M/blwyddyn)
 - Porthladdoedd a Rheolaethau'r Ffin (£ 0.5-1M/blwyddyn)
 - Twyll Defnyddwyr a Sgamiau (£1M/blwyddyn)
- Datblygu'r Gweithlu: Sefydlu cronfa brentisiaeth £1-2 miliwn i greu 50 o leoedd newydd, amrywio'r recriwtio, a sicrhau sgiliau yn y dyfodol.
- Hyrwyddo Partneriaethau: Cynnal buddsoddiad mewn gorfodi a arweinir gan guddwybodaeth, amlasiantaeth a chynnal cydlynid cenedlaethol ar gyfer lles anifeiliaid, tarfu ar droseddau a throseddau ariannol.
- Integreiddio Economaidd: Cydnabod Safonau Masnach ym mhob cynllun twf lleol a rhanbarthol. Ehangu partneriaethau busnes Awdurdod Sylfaenol (targedu 150-200 erbyn 2030).

Gweithred Angenrheidiol: Rhaid i bob plaid, llywodraeth ac awdurdod lleol gydnabod Safonau Masnach fel buddsoddiad strategol. Ymrwymo i ariannu, twf y gweithlu, a phartneriaeth gryfach i amddiffyn dinasyddion Cymru a gyrru cynnydd economaidd.



Cyflwyniad

Swyddogion Safonau Masnach yw amddiffynwyr rheng flaen hawliau defnyddwyr, uniondeb busnes, a diogelwch y cyhoedd ledled Cymru. Bob dydd, mae 267² o swyddogion gweithredol yn gweithio i amddiffyn cymunedau rhag niwed, cefnogi busnesau cyfreithlon i ffynnu, a chynnal masnach deg yn ein marchnadoedd.

Wrth i bleidiau gwleidyddol Cymru ddatblygu eu maniffestos ar gyfer etholiad Senedd 2026, rydym yn galw ar bob plaid i gydnabod Safonau Masnach fel buddsoddiad strategol yn nyfodol Cymru - nid cost i'w lleihau, ond gwasanaeth sy'n cyflenwi enillion mesuradwy ar draws iechyd y cyhoedd, diogelu defnyddwyr, datblygu economaidd, a diogelwch cymunedol.

Mae gwasanaethau Safonau Masnach awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu ar gyllideb refeniw fras o £15.5 miliwn (2024-25), gan gyflogi 294 o staff cyfwerth ag amser llawn, y mae 267 ohonynt yn swyddogion gweithredol.

Yn 2024-25 yn unig, llwyddodd gwasanaethau Safonau Masnach ledled **Cymru i atal dros £43 miliwn mewn niwed i ddefnyddwyr**³. Mae hyn yn cynrychioli gwerth eithriadol, ac eto mae hefyd yn adrodd stori ddifrifol: gwasanaeth yn gweithio i'r eithaf i bwynt torri ar ôl degawd o doriadau sydd wedi lleihau capasiti gan dros 50% mewn termau real⁴.

² Adroddiad Effaith a Chanlyniadau Cymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach (ACTSO) (Cymru) 2024/25

³ Adroddiad Effaith a Chanlyniadau Cymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach (ACTSO) (Cymru) 2024/25

⁴ Maniffesto CTSI 2024


Ynglŷn â Safonau Masnach Cymru

Sefydlwyd y proffesiwn Safonau Masnach yn ffurfiol ym 1835 gyda phenodiad yr Arolygwyr Pwysau a Mesurau cyntaf⁵. O'r arolygwyr cynnar hynny i swyddogion gorfodi modern heddiw, mae'r genhadaeth graidd wedi aros yr un fath drwy'r amser: amddiffyn masnach deg trwy gynnal mesuriadau cywir.

Gyda gwreiddiau yn y Magna Carta, sicrhau mesurau cywir cyson yw sylfaen masnach ledled y byd. Mewn marchnadoedd modern sy'n llawn twyllwyr a chudd-wybodaeth artiffisial sy'n erydu hyder ac ymddiriedaeth, cymerir cywirdeb a thegwch mesur yn ganiataol, er mai 'mesur byr' yw'r twyll gwreiddiol yn ei ffurfiau symlaf, mwyaf sylfaenol. P'un a yw'n ddanfoniadau olew gwresogi/glo, pypiau petrol, offer pwyso, peint o gwrw neu fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw, Safonau Masnach yw unig reoleiddiwr rheng flaen y DU ar gyfer sicrhau cywirdeb yr holl bwysau a mesurau ar gyfer masnach, gan ddiogelu defnyddwyr a masnachwyr gonest rhag twyll a diogelu economi'r DU.

Gan esblygu o'i darddiad mewn arolygu pwysau a mesurau, mae Safonau Masnach bellach yn wasanaeth diogelu cyhoeddus modern, amlochrog, sy'n gyfrifol am orfodi cannoedd o ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelwch cynnyrch, safonau bwyd, lles anifeiliaid, masnachu teg, a diogelu defnyddwyr. Fodd bynnag, ar ôl degawd o doriadau yn y gyllideb, mae hyd yn oed y ddyletswydd statudol fwyaf sylfaenol - sicrhau pwysau a mesurau teg - wedi dod yn fwyfwy anodd ei chynnal⁶.

Mae Safonau Masnach Cymru yn gorff cydlynu sy'n cynrychioli'r 20 o wasanaethau Safonau Masnach awdurdodau lleol ledled Cymru⁷. Mae'n gweithredu fel llais a llwyfan ar y cyd i'r timau awdurdodau lleol hynny rannu gwybodaeth a mynd i'r afael â materion sy'n croesi ffiniau'r cyngor. Mae'n darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer y proffesiwn safonau masnach yng Nghymru, gan hyrwyddo gwelliant a chydweithrediad parhaus ar draws yr holl awdurdodau lleol.



⁵ Michael Jeffs & Jim Humble, *Hanes yr Asiantaeth Safonau Masnach* (The Russell Press, 2014), t11

⁶ Adroddiadau statudol blynyddol Adran 70 o'r Ddeddf Pwysau a Mesur 1985

⁷ Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Dinas Caerdydd, a Chyngor Bro Morgannwg wedi cyfuno eu safonau masnach a gwasanaethau rheoleiddio eraill i greu "Cyddwasanaethau Rheoliadol (SRS)

Pam Rydym yn Bwysig i Gymru

Mae gwasanaethau Safonau Masnach yng Nghymru yn hanfodol i ddiogelu defnyddwyr, gan sicrhau marchnadoedd teg i gefnogi twf economaidd, a chynnal lles cymunedol. Mae ein gwaith yn diogelu'r rhai mwyaf bregus, yn cefnogi busnesau cyfreithlon, yn brwydro yn erbyn troseddau cyfundrefnol, ac yn hyrwyddo amcanion cenedlaethol ym meysydd iechyd, tegwch, twf economaidd a chynaliadwyedd amgylcheddol. Mae buddsoddiad parhaus bellach yn hanfodol i gynnal a chryfhau'r amddiffyniadau hyn ar ôl blynyddoedd o ostyngiadau dwfn yn y gyllideb a dirywiad yn y gweithlu.

Mae timau Safonau Masnach yn gweithredu fel rheng flaen diogelu defnyddwyr a diogelwch cymunedol. Rydym yn amddiffyn defnyddwyr bregus rhag masnachwyr twyllodrus, twyllwyr, a cham-fanteisio ariannol, gan sicrhau euogfarnau a gwahardd troseddwyr sy'n cam-fanteisio ar breswylwyr oedrannus neu ynysig. Trwy ddefnyddio technoleg blocwyr galwadau, ymyriadau lles, a rhaglenni atal sgamiau, rydym yn lleihau colledion ariannol, yn atal niwed, ac yn lleihau'r costau ehangach i iechyd, plismona a gofal cymdeithasol.

Rydym yn amddiffyn iechyd y cyhoedd trwy gael gwared ar nwyddau anniogel ac anghyfreithlon, gan gynnwys tybaco ffug, fêps, alcohol, bwyd a theganau plant. Trwy orfodi labelu bwyd a chyfreithiau alergenau a thrwy erlyn arferion manwerthu anniogel, mae Safonau Masnach yn atal salwch, yn amddiffyn y rhai sydd ag alergeddau, ac yn gwella hyder y cyhoedd yn niogelwch cynhyrchion bob dydd. Mae ein gweithrediadau wedi'u targedu hefyd yn amharu ar droseddau cyfundrefnol ac yn lleihau niwed o fasnach anniogel ac anghyfreithlon sy'n effeithio ar bobl ifanc.

Wrth fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, mae Safonau Masnach yn sicrhau tanwydd teg ac arferion bwyd sy'n amddiffyn aelwydydd incwm isel rhag cael eu hecsbloetio. Mae ein gwiriadau ar danwydd gwresogi a goruchwyliaeth ar ddiogelwch banc bwyd yn sicrhau bod nwyddau hanfodol yn cael eu danfon yn deg ac yn ddiogel.

Rydym hefyd yn hyrwyddo iechyd a lles anifeiliaid trwy orfodi yn erbyn bridio anghyfreithlon a chynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes anniogel, wrth gefnogi nodau hinsawdd ac amgylcheddol trwy orfodi gwaharddiadau fêps un defnydd a rheoliadau effeithlonrwydd ynni yn y sector tai rhent - gostwng allyriadau a lleihau costau ynni i denantiaid.

Mae Safonau Masnach yng Nghymru yn arwain ymchwiliadau o bwys cenedlaethol, gan gynnwys Ymgyrchoedd Thor a Grinch, a ddatgymalodd rwydweithiau fêps anghyfreithlon a theganau ffug ar raddfa fawr. Fe wnaeth y camau hyn adennill enillion troseddol, diogelu defnyddwyr Cymru, a diogelu cyfanrwydd marchnadoedd y DU.

Er gwaethaf gweithredu gyda chyllidebau wedi'u torri gan fwy na hanner mewn termau real a gweithlu sy'n heneiddio, mae gwasanaethau Safonau Masnach yn parhau i gyflenwi canlyniadau eithriadol. Ein canlyniadau allweddol yn 2024 -25:

Canlyniadau allweddol⁸:



£43,076,477

mewn niwed i ddefnyddwyr wedi'i atal dros y 12 mis diwethaf



33,474

o adroddiadau a dderbyniwyd gan aelodau'r cyhoedd a phartneriaid gorfodi⁹



835,413

o gynhyrchion anghyfreithlon unigol wedi'u hatafael (annigol, ffug, wedi'u cam-ddisgrifio)



£295,319

o iawndal llys wedi'i sicrhau ar gyfer dioddefwyr



£3.9 miliwn

cyfanswm gwerth stryd y cynhyrchion a atafaelwyd



£212,965

mewn costau llys wedi'i ddyfarnu



£1.4 miliwn

wedi'i sicrhau drwy orchmynion llys sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r diffynyddion ad-dalu enillion trosedd



1,108

o ymatebion cyngor busnes uniongyrchol wedi'u darparu



7,080

o ddioddefwyr sgâm dderbyniodd ymyriadau amddiffynnol



18,644

o ymweliadau busnes lle cyflawnwyd cydymffurfiaeth

Mae'r ffigurau hyn yn dangos am **bob £1 a fuddsoddir mewn Safonau Masnach, mae'n cynhyrchu hyd at £12 mewn atal niwed.**

Mae ein gwaith yn adeiladu cymunedau mwy diogel, tecach, a mwy cynaliadwy i Gymru. Mae buddsoddiad parhaus ac aml-flwyddyn yn hanfodol i ddiogelu'r rhwydwaith cenedlaethol hwn o amddiffyniad lleol, sicrhau capasiti yn y dyfodol, a sicrhau bod tegwch, diogelwch a chyfiawnder yn parhau ledled Cymru.

Mae'r manifesto hwn yn galw ar bob plaid wleidyddol i gymeradwyo pedair thema strategol ar gyfer Safonau Masnach:

- **Thema 1** Cyllid hirdymor: Meithrin Cadernid ar ôl Degawd o Doriadau
- **Thema 2** Datblygu Gweithlu: Diogelu'r Genhedlaeth Nesaf
- **Thema 3** Atal a Phartneriaeth: Cyflenwi Ar Ôl Ariannu
- **Thema 4** Integreiddio Economaidd: Cefnogi Twf a Marchnadoedd Teg

⁸ Adroddiad Cymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach (ACTSO) 2024-25

⁹ Mae'r Gwasanaeth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth yn ymdrin ag ymholiadau cychwynnol am hawliau defnyddwyr, gan gynnwys nwyddau a gwasanaethau diffygiol ar ran holl Wasanaethau Safonau Masnach awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'n wasanaeth a ariennir gan y llywodraeth sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor am ddim.

Thema 1:

Cyllid tymor hir -
Meithrin Cadernid ôl Degawd o Doriadau



Beth Sydd ei Angen ar Safonau Masnach gan y Pleidiau

Dros y degawd diwethaf, mae gwasanaethau Safonau Masnach ledled Cymru wedi gweld cyllidebau yn cael eu torri gan dros 50% mewn termau real. Heddiw, mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar oddeutu £15.5 miliwn yn flynyddol, yn gweithio i'r eithaf ar draws 20 o dimau awdurdodau lleol sy'n gwasanaethu Cymru gyfan. Mae'r erydiad hwn o gyllid wedi gorfodi gwasanaethau i symud o atal rhagweithiol i orfodi adweithiol, wedi'i arwain gan gudd-wybodaeth a rheoli argyfwng, gan ymateb i'r bygythiadau mwyaf brys tra'n brin o allu i fynd i'r afael â niwed sy'n dod i'r amlwg.

Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, roedd Safonau Masnach yn atal £43 miliwn mewn niwed i ddefnyddwyr yn 2024 -25 yn unig. Mae ymchwil yn dangos yn gyson bod pob £1 a fuddsoddir mewn Safonau Masnach yn atal hyd at £12 mewn niwed i ddefnyddwyr a busnesau. Ac eto heb gyllid digonol, mae'r amddiffyniad hwn dim ond yn cyrraedd ffraciwn o'r rhai sydd ei angen¹⁰.

Mae gwasanaethau Safonau Masnach yng Nghymru ar groesffordd. Heb fuddsoddiad brys, rydym mewn perygl o golli'r arbenigedd a'r capasiti sy'n hanfodol i ddiogelu dinasyddion a busnesau Cymru. Ac eto, gyda chefnogaeth briodol, gallwn ehangu ein cyrhaeddiad, atal argyfyngau cyn iddynt ddigwydd, ac adeiladu Cymru decach a mwy diogel i bawb.

Argyfwng y Gweithlu

Mae Cymru yn wynebu her hollbwysig yn y gweithlu safonau masnach:

- Dim ond 7% o'r proffesiwn safonau masnach yng Nghymru oedd yn 30 oed neu'n iau yn 2021
- Roedd 31% dros 50 oed ac yn nesáu at ymddeoliad
- Mae'r gweithlu'n lleihau oherwydd ymddeoliad heb unrhyw biblinell gynaliadwy o dalent newydd
- Heb fuddsoddiad brys, mae perygl i Gymru golli'r arbenigedd sy'n hanfodol i ddiogelu defnyddwyr a busnesau

Cyfleoedd Ariannu a Gollwyd

Mae gwasanaethau Safonau Masnach yng Nghymru wedi colli allan ar gyllid sylweddol gan Lywodraeth y DU sydd wedi'i glustnodi ar gyfer awdurdodau Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Pan dderbyniodd Lloegr £10 miliwn ar gyfer Safonau Masnach i fynd i'r afael â thybaco a fêps anghyfreithlon – gan gynnwys £5 miliwn ar gyfer hyd at 90 o swyddogion gorfodi prentisiaeth – nid yw Cymru wedi derbyn cyllid tebyg eto¹¹.

Yn 2020/21, darparodd Llywodraeth y DU £1.4 miliwn i wasanaeth Safonau Masnach Gogledd Iwerddon gyflawni rhwymedigaethau newydd o dan brotocol Gogledd Iwerddon a fframwaith Windsor. Defnyddiwyd hyn i gynyddu capasiti staff gan 30%¹². Mae'r system ddwy haen hon yn gadael defnyddwyr Cymru â llai o ddiogelwch na'u cymheiriaid mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

Mae angen cydnabyddiaeth frys o'r pwysau cyllido hyn a chynllun cyllido tymor hir, teg a chynaliadwy sy'n adfer tua hanner y capasiti a gollwyd dros y degawd diwethaf ac yn galluogi Safonau Masnach i symud o ddelio ag argyfwng i atal strategol.

¹⁰ *Manifffesto CTSI 2024*

¹¹ *Sylwer: Ni dderbyniodd Cymru a'r Alban unrhyw ddryniad o'r pecyn £10 miliwn hwn.*
<https://www.gov.uk/government/news/more-officers-on-streets-to-smoke-out-illicit-tobacco-and-vapes>

¹² *Manifffesto CTSI 2024*

Yr Hyn yr Ydym Eisiau ei Weld yn Digwydd

Mae angen buddsoddiad o **£15 miliwn ar wasanaethau Safonau Masnach Cymru dros y pum mlynedd nesaf** i adfer capasiti craidd hanfodol ar draws meysydd gorfodi blaenoriaeth gan gynnwys diogelwch cynnyrch, diogelu iechyd y cyhoedd (gan gynnwys gorfodi tybaco a fêps anghyfreithlon), iechyd a lles anifeiliaid, safonau bwyd, atal twyll a sgamiau, diogelu defnyddwyr bregus, a chymorth busnes.

Byddai'r buddsoddiad hwn yn galluogi i'r gwasanaeth sicrhau cydraddoldeb rhwng y gweithlu a gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol tebyg eraill yng Nghymru, megis Iechyd yr Amgylchedd, sy'n gweithredu gyda 528 o swyddogion¹³ - bron dwbl safonau masnach - gan sicrhau diogelwch rheoleiddiol cyson i ddinasyddion a busnesau Cymru.

Byddai'r buddsoddiad hwn yn:

- Cryfhau galluoedd gorfodi i fynd i'r afael â bygythiadau sy'n dod i'r amlwg gan gynnwys sgamiau ar-lein, nwyddau ffug, a honiadau amgylcheddol twyllodrus
- Gwellu diogelwch i breswylwyr bregus sydd wedi'u targedu'n anghymesur gan fasnachwyr twyllodrus a sgamwyr
- Atal hyd at £335.5 miliwn mewn niwed i ddinasyddion a mentrau Cymru, yn seiliedig ar gymarebau enillion ar fuddsoddiad sefydledig

Yn ogystal, mae cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer y canlynol yn hanfodol ar gyfer blaenoriaethau gorfodi critigol lle mae defnyddwyr Cymru yn wynebu niwed sylweddol:

- **Tybaco a Fêps Anghyfreithlon (£1-2 miliwn y flwyddyn):** Mae Cymru yn wynebu argyfwng iechyd cyhoeddus cynyddol o dybaco a chynhyrchion fêps anghyfreithlon. Er bod Safonau Masnach yn cynnal dros 25 o ymgyrchoedd gorfodi mawr rhwng 2022 a 2025, mae'r galw yn llawer uwch na'r capasiti. Byddai cyllid wedi'i glustnodi yn cefnogi rhaglenni pryniant prawf, achos llys ar gyfer gorchmynion cau, storio nwyddau wedi'u hatafael yn ddiogel, ac ymgyrchoedd wedi'u harwain gan gudd-wybodaeth sy'n targedu rhwydweithiau cyflenwi troseddol.
- **Porthladdoedd a Rheolaethau'r Ffin (£0.5-1 miliwn y flwyddyn):** Mae porthladdoedd Cymru - gan gynnwys Caergybi, Casnewydd ac Abertawe - yn gwasanaethu fel pwyntiau mynediad hanfodol ar gyfer nwyddau. Mae data cenedlaethol yn dangos bod 45%¹⁴ o'r cynhyrchion a fewnforiwyd a archwiliwyd ym mhorthladdoedd y DU yn anniogel neu ddim yn cydymffurfio. Fe wnaeth un atafaeliad gan Safonau Masnach Ynys Môn yng Nghaergybi yn 2024 adfer 54,560 o fêps anghyfreithlon gwerth dros £750,000. Byddai gorfodi gwell mewn porthladdoedd yn amddiffyn defnyddwyr a busnesau Cymru rhag mewnforyn peryglus.
- **Twyll Defnyddwyr a Sgamiau (£1 miliwn y flwyddyn):** Mae oedolion bregus yn wynebu ecsbloetio ariannol cynyddol. Byddai cyllid wedi'i glustnodi yn ehangu rhaglenni diogelu fel menter trueCall® Sir Gaerfyrddin, a ataliodd £184,554 mewn colledion trwy ddarparu technoleg blocio galwadau i breswylwyr sydd mewn perygl. Byddai cyllid ychwanegol yn cefnogi cydweithredu â banciau i sicrhau ad-daliadau i ddioddefwyr twyll ac ehangu gorfodi benthyca arian anghyfreithlon.

Rhaid i'r buddsoddiadau hyn gael eu clustnodi a'u diogelu - eu dynodi'n benodol ar gyfer Safonau Masnach a'u gwarchod rhag cael eu hamsugno i gyllidebau cyffredinol awdurdodau lleol. Pan fydd cyllid wedi'i glustnodi, fel y dangosir, mae'n cyflenwi canlyniadau trawsnewidiol trwy feithrin gallu parhaus, recriwtio strategol, a phartneriaethau integredig.

¹³ Arolwg Capasiti Cymdeithas Llywodraeth Leol 2023

¹⁴ Maniffesto CTSI 2024

Thema 2:

Datblygu'r Gweithlu -
Diogelu'r Genhedlaeth Nesaf



Beth sydd ei angen ar Safonau Masnach gan y Pleidiau

Mae'r gwasanaeth Safonau Masnach yng Nghymru yn wynebu argyfwng demograffig critigol. Dim ond **7% o'r gweithlu sy'n 30 oed neu'n iau**, tra bod **31% dros 50 oed ac yn nesáu at ymddeoliad**¹⁵. Heb ymyrraeth frys i recriwtio a hyfforddi'r genhedlaeth nesaf, bydd Cymru yn colli degawdau o arbenigedd cronedig sy'n hanfodol i ddiogelu defnyddwyr a chefnogi busnesau.

Mae'r her hon yn cael ei gwaethygu gan gymhlethdod gorfodaeth fodern. Rhaid i swyddogion Safonau Masnach heddiw lywio marchnadoedd digidol, twyll cryptoarian, gweithrediadau ffugio soffistigedig, rhwydweithiau troseddau trawsffiniol, a rheoliadau diogelwch cynnyrch sy'n esblygu'n gyflym. Mae'r proffesiwn yn gofyn am ddysgu ac addasu parhaus - ac eto nid oes unrhyw biblinell gynaliadwy o dalent newydd yn dod i mewn i'r gwasanaeth.

Mae gwledydd eraill y DU wedi cydnabod yr argyfwng hwn ac wedi gweithredu. Buddsoddodd Lloegr £5 miliwn i sefydlu 90 o swyddogion gorfodi prentisiaeth Safonau Masnach. Cynyddodd buddsoddiad £1.4 miliwn Gogledd Iwerddon gapasiti 30% trwy recriwtio 24 aelod o staff ychwanegol ac 16 o hyfforddeion. Mae Cymru wedi cael ei gadael ar ôl, heb unrhyw gyllid prentisiaeth pwrpasol cyfatebol eto er gwaethaf wynebu'r un heriau gweithlu.

Mae arnom angen Cronfa Brentisiaeth bwrpasol a buddsoddiad parhaus i ddatblygu'r gweithlu i sicrhau bod y gwasanaeth Safonau Masnach yn parhau i allu amddiffyn cymunedau Cymru am ddegawdau i ddod.

Yr Hyn yr Ydym Eisiau Ei Weld yn Digwydd

Cronfa Brentisiaeth bwrpasol o £1-2 miliwn dros bum mlynedd i sefydlu hyd at 50 o leoedd prentisiaeth ledled Cymru, gan greu llwybr strwythuredig i'r proffesiwn ar gyfer pobl ifanc ym mhob rhanbarth a chymuned.

Byddai'r buddsoddiad hwn yn:

- Datblygu a chyflwyno cynllun Prentisiaeth Cydymffurfio Rheoleiddiol Lefel 4 wedi'i deilwra i anghenion Cymru
- Darparu adnoddau ar gyfer ôl-lenwi ac amser mentora, gan sicrhau bod prentisiaid yn derbyn hyfforddiant o ansawdd uchel heb golli capasiti gweithredol
- Cefnogi trefniadau prentisiaeth ar y cyd ar draws consortia awdurdodau lleol, gan alluogi awdurdodau llai i gymryd rhan
- Sicrhau darpariaeth ddwyieithog Cymraeg-Saesneg sy'n cryfhau sgiliau Cymraeg o fewn y proffesiwn

Mae'r buddion yn ymestyn y tu hwnt i recriwtio di-oed:

- Piblinell gweithlu cynaliadwy i ddisodli staff sy'n ymddeol a chynnal gwybodaeth sefydliadol
- Mwy o amrywiaeth sy'n adlewyrchu'n well y cymunedau y mae gwasanaethau Safonau Masnach yn eu gwasanaethu
- Gwell capasiti i fynd i'r afael â heriau sy'n dod i'r amlwg gan gynnwys gorfodi digidol, atal twyll, a diogelwch cynnyrch yn yr economi ddigidol
- Mentora strwythuredig sy'n cadw arbenigedd hanfodol drwy drosglwyddo gwybodaeth o swyddogion profiadol i recriwtiaid newydd

Mae buddsoddiad datblygu'r gweithlu yn cynrychioli rhaglen creu swyddi ar gyfer pobl ifanc Cymru ac yn anghenraid strategol ar gyfer cynnal capasiti diogelu defnyddwyr. Hebdo, mae Cymru mewn perygl o fwch sgiliau a fydd yn cymryd cenhedlaeth i ailadeiladu.

Thema 3:

Atal a Phartneriaeth -
Buddsoddiad wedi'i Glustnodi ar gyfer
Blaenoriaethau Gorfodi Critigol



Beth Sydd ei Angen ar Safonau Masnach gan y Pleidiau

Y tu hwnt i adfer capasiti craidd a buddsoddiad mewn datblygu'r gweithlu, mae angen cyllid penodol ar wasanaethau Safonau Masnach yng Nghymru ar gyfer blaenoriaethau gorfodi penodol lle mae defnyddwyr a busnesau Cymru yn wynebu niwed sylweddol. Ar hyn o bryd, mae Cymru wedi colli allan yn gyson ar gyllid wedi'i glustnodi gan Lywodraeth y DU ar gyfer y meysydd hanfodol hyn. Er y derbynnir symiau canlyniadol Barnett ar gyfer rhai rhaglenni yn y DU, nid yw'r cronfeydd hyn wedi'u diogelu ar gyfer gwasanaethau Safonau Masnach ac efallai na fyddant yn cyrraedd gorfodaeth rheng flaen, gan greu system ddwy haen lle mae defnyddwyr Cymru yn cael llai o amddiffyniad na'u cymheiriaid mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

Daw'r dystiolaeth fwyaf cymhellol ar gyfer buddsoddiad Safonau Masnach nid o ddamcaniaeth ond o lwyddiant profedig. Pan fydd Safonau Masnach yn derbyn cyllid wedi'i dargedu gan y llywodraeth, mae'r canlyniadau'n drawsffurfiol, yn fesuradwy, ac yn genedlaethol o ran cwmphas.

Mae tair menter flaenllaw yn dangos yn glir bod buddsoddiad strategol yn cyflawni canlyniadau eithriadol: **Prosiect Trwyddedu Anifeiliaid Cymru** (a ariennir gan Lywodraeth Cymru), **Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru** (a ariennir gan Lywodraeth y DU), ac **Ymgyrch CeCe** (a ariennir gan CThEM). Mae'r rhaglenni hyn yn enghraifft o effaith lluosydd buddsoddiad - mae cyllid cymedrol yn galluogi gweithredu cydgysylltiedig sy'n cyflawni canlyniadau ymhell y tu hwnt i'r hyn y gallai awdurdodau unigol ei gyflawni ar eu pennau eu hunain.

Ac eto heb gyllid parhaus, wedi'i glustnodi, mae'r llwyddiannau hyn yn parhau i fod yn enghreifftiau ynysig yn hytrach na'r model gweithredu safonol. Mae'r gwasanaeth Safonau Masnach yng Nghymru yn sicrhau canlyniadau eithriadol er gwaethaf cyfyngiadau adnoddau, ond gellid cyflawni llawer mwy gyda buddsoddiad digonol mewn atal a gweithio mewn partneriaeth.

Mae angen cydnabod bod atal yn fwy effeithiol a chost-effeithlon nag ymateb i argyfwng, a bod timau Safonau Masnach, pan gânt eu hariannu'n briodol, yn atal niwed a fyddai'n costio biliynau i fynd i'r afael ag ef ar ôl i fethiannau ddigwydd.

Yr Hyn yr Ydym Eisiau ei Weld yn Digwydd

Mae'r dystiolaeth o gyllid wedi'i glustnodi yng Nghymru yn dangos potensial trawsnewidiol y blaenoriaethau buddsoddi a amlinellir yn y manifesto hwn. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos nad yw gwasanaethau Safonau Masnach Cymru yn analluog - yn hytrach, maent wedi profi diffyg adnoddau systematig wrth wynebu'r un cyfrifoldebau a disgwyliadau statudol â gwasanaethau mewn gwledydd eraill. Pan fydd cyllid yn cyd-fynd â'r angen, mae'r canlyniadau'n gymhellol.

Astudiaeth Achos 1: Trwyddedu Anifeiliaid Cymru - Meithrin Capasiti Cenedlaethol Trwy Fuddsoddiad Llywodraeth Cymru

Prosiect Trwyddedu Anifeiliaid Cymru (ALW) yw un o'r enghreifftiau mwyaf llwyddiannus o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru sy'n galluogi Safonau Masnach i gael effaith ledled y wlad. Dan arweiniad Cyngor Sir Fynwy ar ran Safonau Masnach Cymru, mae'r fenter hon wedi trawsnewid sut mae gorfodi lles anifeiliaid yn gweithredu ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Yr Her Cyn Buddsoddi

Cyn y Prosiect hwn, roedd gorfodaeth trwyddedu anifeiliaid yn gweithredu'n anghyson ledled Cymru. Roedd gan rai awdurdodau lleol arbenigedd arbenigol a chapasiti penodol; nid oedd gan eraill y ddau. Creodd y loteri cod post hon fylchau gorfodi a danseiliodd safonau lles anifeiliaid, rhoi busnesau a oedd yn cydymffurfio dan anfantais wrth gystadlu yn erbyn gweithredwyr didrwydded, ac a adawodd lawer o gynghorau yn methu â chyflawni rhwymedigaethau statudol o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021.

Buddsoddiad Strategol yn Creu Capasiti Cenedlaethol

Fe wnaeth cyllid Llywodraeth Cymru alluogi creu tîm gorfodi a gydlynir yn genedlaethol sy'n cynnwys rheolwr prosiect, wyth swyddog trwyddedu anifeiliaid rhanbarthol, dau swyddog cudd-wybodaeth, a staff cymorth. Mae'r model arbenigedd cyfunol hwn yn sicrhau bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru - waeth beth fo'i faint neu gapasiti mewnol - fynediad at wybodaeth arbenigol a chymorth gorfodi.

Mae'r tîm yn gweithredu drwy fodel soffistigedig a arweinir gan gudd-wybodaeth. Yn hytrach nag aros am gwynion neu gynnal archwiliadau ar hap, mae'r swyddogaeth gudd-wybodaeth ALW yn dadansoddi data o bob rhan o Gymru i nodi bridwyr didrwydded, gwerthu anifeiliaid anghyfreithlon, a risgiau lles. Rhennir yr wybodaeth hon gyda'r heddlu, RSPCA, ac asiantaethau gorfodi eraill, gan alluogi ymyriadau rhagweithiol sy'n atal niwed cyn iddo ddod yn eang.

Canlyniadau Mesuradwy sy'n Dangos Gwerth

Ers ei sefydlu, mae Prosiect ALW wedi sicrhau canlyniadau pendant a mesuradwy:

- Meithrin Gallu: Darperir hyfforddiant ar draws 12 awdurdod lleol, gyda dros 60 o swyddogion wedi'u hyfforddi a 26 yn ennill cymwysterau trwyddedu proffesiynol llawn
- Gorfodi dan Arweiniad Cudd-wybodaeth: rheolwyd 423 o atgyfeiriadau cudd-wybodaeth, gan gynhyrchu 132 o ymchwiliadau ffurfiol a 787 o archwiliadau o safleoedd trwyddedig a didrwydded
- Gweithred Gorfodi Uniongyrchol: 68 o hysbysiadau gwella wedi'u cyhoeddi o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, gwelliannau cymhellol i gartrefi, gofal ac amodau lles anifeiliaid
- Gweithio mewn Partneriaeth: Mae cydweithio integredig â'r heddlu, RSPCA, a chydweithwyr mewn awdurdodau lleol yn creu rhwydwaith gorfodi unedig

Mae'r effeithiolrwydd wedi ennill cydnabyddiaeth genedlaethol. Yn 2024, dyfarnodd **RSPCA Cymru Wobr Cydnabyddiaeth Arbennig i'r prosiect** am ragoriaeth mewn gorfodi a gweithio mewn partneriaeth. Yn bwysicach fyth, estynnodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer 2025-26, gan gydnabod bod y prosiect yn darparu gwerth mesuradwy ac yn gofyn am gefnogaeth barhaus.

Y Wers: Mae buddsoddiad strategol, wedi'i dargedu mewn Safonau Masnach yn creu capasiti na all awdurdodau unigol ei adeiladu ar eu pennau eu hunain. Mae cyllid cymedrol yn darparu cysondeb ledled y wlad, datblygiad proffesiynol, gorfodi dan arweiniad cudd-wybodaeth, a gweithio mewn partneriaeth sy'n amddiffyn anifeiliaid, yn cefnogi busnesau cyfreithlon, ac yn sicrhau cystadleuaeth deg.

Astudiaeth Achos 2: Ymgrych CeCe - Cyllid CThEM yn Tarfu ar Droseddau Cyfundrefnol ac yn Diogelu Iechyd y Cyhoedd

Mae'r fasnach tybaco a fêps anghyfreithlon yn tanseilio iechyd y cyhoedd, yn tanio troseddau cyfundrefnol, yn amddifadu'r Trysorlys o refeniw treth, ac yn rhoi manwerthwyr cyfreithlon sy'n cystadlu'n deg o dan anfantais. Mae timau Safonau Masnach Cymru, gyda chefnogaeth cyllid CThEM, wedi'u lleoli ar draws y wlad i darfu ar y fenter droseddol hon.

Mae Ymgrych CeCe, menter genedlaethol a arweinir ar y cyd gan Safonau Masnach Cenedlaethol a Chyllid a Thollau EM (CThEM), yn dangos sut mae cyllid allanol yn galluogi Safonau Masnach Cymru i fynd i'r afael â rhwydweithiau troseddol soffistigedig sy'n gweithredu ar draws ffiniau ac awdurdodau.

Graddfa Genedlaethol, Effaith Leol

Rhwng 2022 a 2025, fe wnaeth timau Safonau Masnach Cymru eu hunain gael gwared ar:

- Dros **6.8 miliwn o sigaréts anghyfreithlon, bron 2 dunell o dybaco wedi'i rollo â llaw a 376,500 o fêps anghyfreithlon** (yn gyfwerth â dros £3.1 miliwn mewn trethi a gollwyd)¹⁶
- Dros 376,500 o fêps anghyfreithlon (2023 -24) - gwerth stryd cyfunol sy'n fwy na £1.1 miliwn

Symudedd Cymru Gyfan

Enghreifftiau o gamau a gymerwyd gan dimau Safonau Masnach fel rhan o Ymgrych CeCe:

- **Ynys Môn:** Fe wnaeth un atafaeliad yng Nghaergybi adfer 54,560 o fêps anghyfreithlon gyda gwerth stryd dros £750,000, gan ddangos graddfa'r broblem ac effeithiolrwydd gorfodi wedi'i dargedu.
- **Cyngor Abertawe:** Arweiniodd tri diwrnod o weithredu cydgysylltiedig yn targedu 14 siop at 9 hysbysiad cau; atafaelodd swyddogion 971 pecyn o sigaréts, 970 pecyn o dybaco rholio â llaw, a 2,292 o fêps - cyfanswm o bron i £80,000 mewn gwerth ar y stryd. Cafodd 11 o bobl eu harestio.
- **Cyngor Sir Fynwy:** Datgelodd ymgrych amlasiantaeth adran gudd wedi'i gweithredu'n hydrolig a adeiladwyd i mewn i wal siop - dull cuddio soffistigedig sy'n dangos y dyfeisgarwch troseddol y mae angen i Safonau Masnach ei wrthsefyll. Gan weithio gyda Heddlu Gwent, Gorfodi Mewnffudo, a Thîm Ymchwilio Rhanbarthol Ymgrych CeCe Cymru, datgymalodd swyddogion y seilwaith troseddol hwn.
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint:** Fe wnaeth ymgrych cydgysylltiedig gyda Heddlu Gogledd Cymru, Gorfodi Mewnffudo, a'r Swyddfa Eiddo Deallusol, adfer dros 500,000 o sigaréts ffug, fêps anghyfreithlon, £10,000 o arian parod, a dyfeisiau digidol lluosog a ddefnyddiwyd ar gyfer masnach anghyfreithlon. Rhannwyd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod cyrchoedd gyda CThEM a'r Llu Ffiniau i nodi llwybrau smyglo a chryfhau rhwydweithiau cudd-wybodaeth cenedlaethol. Sicrhodd Cyngor Wrecsam 5 gorchymyn cau tri mis, gyda 4 atgyfeiriad ffurfiol at CThEM yn cefnogi ymchwiliadau ehangach.

Mantais y Bartneriaeth

Mae'r llwyddiannau hyn yn dibynnu ar gydweithrediad amlasiantaethol y mae cyllid CThEM yn ei alluogi. Mae swyddogion Safonau Masnach Lleol yn gweithio ochr yn ochr â heddluoedd, Gorfodi Mewnffudo, ymchwilydd CThEM, ac adnoddau arbenigol gan gynnwys cŵn canfod tybaco. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn mynd i'r afael â gweithrediadau troseddol cymhleth na allai unrhyw asiantaeth unigol fynd i'r afael â nhw ar ei phen ei hun.

Heb gyllid penodol, ni fyddai gan wasanaethau Safonau Masnach Cymru y gallu i gyfranogi'n effeithiol yn y partneriaethau hyn. Mae cyllid CThEM yn darparu nid yn unig adnoddau ariannol ond hefyd cudd-wybodaeth arbenigol, cymorth cyfreithiol, a mecanweithiau cydlynw sy'n chwyddo effeithiolrwydd gorfodi lleol.

Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Economaidd

Mae Ymgyrch CeCe yn cyflawni canlyniadau ar draws nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar yr un pryd:

- Buddion Iechyd Cyhoeddus: Mae pob sigarét anghyfreithlon sy'n cael ei dynnu o'i werthu yn golygu na all niweidio person ifanc; mae pob siop fêps sy'n cau yn lleihau pwyntiau mynediad i brynwyr dan oed
- Buddion economaidd: Yn amddiffyn manwerthwyr cyfreithlon sy'n talu trethi ac yn cydymffurfio â rheoliadau rhag cystadleuaeth annheg gan fentrau troseddol
- Diogelu refeniw treth: Sicrhau nad yw'r sylfaen dreth sy'n ariannu gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei erydu drwy smyglo a ffugio

Y Wers: Pan ddarperir cyllid allanol i wasanaethau Safonau Masnach yng Nghymru, mae'r gwasanaeth yn cyflawni canlyniadau o arwyddocâd cenedlaethol. Mae timau Cymru yn cyfrannu at ymdrechion gorfodi ledled y DU, yn tarfu ar rwydweithiau troseddol trawsffiniol, yn diogelu iechyd y cyhoedd, ac yn diogelu tegwch economaidd. Heb gyllid o'r fath, ni fyddai'r ymgyrchoedd hyn yn digwydd. Mae'r cyferbyniad yn amlwg: **gyda chyllid, mae Cymru yn cyfrannu at ymdrechion gorfodi cenedlaethol ac yn amddiffyn ei dinasyddion. Hebdo, daw Cymru yn hafan i droseddwyr sydd wedi'u dadleoli o ardaloedd ag adnoddau gwell.**

3

Astudiaeth Achos 3: Atal Siarcod Benthycwyr Arian Cymru - Cyllid gan Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â benthycwyr arian anghyfreithlon

Gweithredir Atal Siarcod Benthycwyr Arian Cymru gan Uned Benthycwyr Arian Anghyfreithlon Cymru, a gynhelir gan y Cydwasanaethau Rheoliadol. Wedi'i sefydlu yn 2008 gyda chyllid gan Lywodraeth y DU, mae'r uned yn cyflogi ymchwilyr arbenigol a swyddogion cyswllt cleientiaid i orfodi cyfreithiau credyd defnyddwyr, twyll, a gwyngalchu arian - gwaith gorfodi cymhleth nad oes gan wasanaethau safonau masnach unigol y gallu a'r arbenigedd i'w wneud yn annibynnol. Mae'r uned bwrpasol hon yn ymchwilio ac yn erlyn benthycwyr anghyfreithlon ledled Cymru wrth amddiffyn a chefnogi dioddefwyr sydd wedi benthycwyr arian gan fenthycwyr arian didrwydded.

Canlyniadau Mesuradwy sy'n Dangos Gwerth

Ers 2008, mae'r uned wedi cefnogi cannoedd o bobl sydd wedi dioddef oherwydd y drosedd hon, ac wedi dileu cannoedd o filiynau o bunnoedd mewn dyled anghyfreithlon:

- Dros **£2,500,000** o ddyledion anghyfreithlon wedi'u dileu
- **347** o fenthycwyr arian anghyfreithlon a amheuir wedi'u hadnabod
- **70,000** o ddioddefwyr benthycwyr arian didrwydded yng Nghymru
- **932** o ddioddefwyr yn cael eu cefnogi yn uniongyrchol gan Uned Benthycwyr Arian Anghyfreithlon Cymru
- **3715** o ddioddefwyr wedi'u hadnabod

Gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, yr heddlu, asiantaethau cynghori, elusennau a darparwyr tai, maent yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r broblem benthycwyr arian didrwydded, ac yn gweithio gyda nhw i gynorthwyo'r rhai a allai fod yn agored i weithgaredd benthycwyr arian didrwydded, neu y gallai rhywun fod wedi manteisio arnynt yn barod.

Y Wers: Mae unedau arbenigol sydd wedi'u hariannu'n dda yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â throseddau ariannol. Nid oes gan wasanaethau safonau masnach unigol y gallu na'r arbenigedd i ymchwilio i fenthycwyr arian didrwydded yn effeithiol. Mae Atal Siarcod Benthg Arian Cymru yn dangos bod buddsoddiad penodol gan y llywodraeth yn galluogi erlyniadau llwyddiannus ac yn amddiffyn dioddefwyr, tra na all awdurdodau lleol heb adnoddau digonol fynd i'r afael â throseddau cymhleth na diogelu pobl fregus rhag cael eu hecsbloetio.


Beth mae'r Straeon Llwyddiant hyn yn ei olygu ar gyfer Buddsoddi yn y Dyfodol

Mae'r tair astudiaeth achos hyn yn darparu tystiolaeth rymus bod buddsoddiad strategol yn y gwasanaeth Safonau Masnach yng Nghymru yn sicrhau canlyniadau mesuradwy a thrawsnewidiol:

- **Cydlynu Cenedlaethol:** Mae cyllid yn galluogi gweithredu cydgysylltiedig ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, gan sicrhau safonau cyson a dileu bylchau gorfodi
- **Capasiti Arbenigol:** Mae buddsoddi yn meithrin arbenigedd na all awdurdodau unigol ei gynnal ar eu pennau eu hunain, gan greu pyllau o wybodaeth broffesiynol sydd ar gael i bawb
- **Gorfodi dan Arweiniad Cudd-wybodaeth:** Mae arian penodol yn cefnogi swyddogaethau cudd-wybodaeth soffistigedig sy'n adnabod risgiau yn rhagweithiol yn hytrach na gweithredu'n ymatebol i argyfyngau
- **Partneriaeth Amlasiantaethol:** Mae arian allanol yn darparu adnoddau a mecanweithiau cydlynu sy'n galluogi Safonau Masnach i weithio'n effeithiol ochr yn ochr â'r heddlu, CThEM, gorfodi mewnffudo, ac asiantaethau arbenigol eraill
- **Effaith Mesuradwy:** Mae'r rhaglenni hyn yn cyflenwi canlyniadau y gellir eu meintoli - swyddogion wedi'u hyfforddi, safleoedd wedi'u harolygu, cynhyrchion anghyfreithlon wedi'u hatafael, erlyniadau wedi'u sicrhau, gwell safonau lles
- **Ymrwymiad Parhaus:** Nid yw llwyddiant yn gofyn am chwistrelliadau untro ond buddsoddiad parhaus, blwyddyn ar ôl blwyddyn sy'n galluogi cynllunio, recriwtio a datblygu partneriaethau

Mae'r blaenoriaethau buddsoddi a amlinellir yn y manifest o hwn yn adlewyrchu'r model profedig y mae Trwyddedu Anifeiliaid Cymru, Ymgyrch CeCe ac Atal Siarcod Benthg Arian Cymru yn enghraifft ohonynt.

Bydd darparu buddsoddiad digonol, parhaus, wedi'i glustnodi, a gwasanaethau Safonau Masnach yng Nghymru yn sicrhau canlyniadau o arwyddocâd cenedlaethol.



Thema 4:

Integreiddio Economaidd -
Cefnogi Twf a Marchnadoedd Teg



Beth y mae'r Safonau Masnach ei angen gan Bleidiau

Mae gwasanaethau Safonau Masnach yn aml yn cael eu hanwybyddu mewn cynlluniau twf rhanbarthol a strategaethau gweithredu economaidd, er gwaethaf chwarae rhan hanfodol wrth alluogi marchnadoedd teg, diogel a chefnogi twf busnes. Mae'r anweledigrwydd hwn yn cynrychioli cyfle a gollwyd i harneisio arbenigedd rheoleiddio fel galluogwr economaidd cadarnhaol.

Pan fydd marchnadoedd yn gweithredu'n deg - wedi'u diogelu rhag masnachwyr twyllodrus, nwyddau ffug, ac arferion twyllodrus - mae hyder defnyddwyr yn cynyddu, mae busnesau cyfreithlon yn ffynnu, ac mae gweithgaredd economaidd yn ehangu. Mae gwasanaethau Safonau Masnach yn cyflenwi'r uniondeb hwn yn y farchnad ond yn anaml y maent yn derbyn cydnabyddiaeth o fewn fframweithiau datblygu economaidd.

Mae angen cydnabyddiaeth bendant arnom nad gwasanaeth gorfodi yn unig yw'r gwasanaeth Safonau Masnach ond conglaen datblygu economaidd - diogelu busnesau gonest rhag cystadleuaeth annheg, cefnogi twf trwy bartneriaethau cymorth busnes ffurfiol (partneriaethau Awdurdod Sylfaenol), a meithrin hyder defnyddwyr sy'n sail i weithgaredd economaidd.

Yr Hyn yr Ydym Eisiau Ei Weld yn Digwydd

Mae gwasanaeth Safonau Masnach Cymru yn ceisio cydnabyddiaeth benodol o fewn cynlluniau twf rhanbarthol, strategaethau datblygu economaidd, blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ac iteriadau Ffyniant i Bawb yn y dyfodol. Yn benodol, dylai'r gydnabyddiaeth hon gynnwys:

- Cynrychiolaeth Safonau Masnach mewn partneriaethau economaidd rhanbarthol a fforymau cymorth busnes
- Cydnabyddiaeth o gynllun yr Awdurdod Sylfaenol fel mecanwaith cymorth busnes allweddol
- Gwell cydweithio rhwng Safonau Masnach a Busnes Cymru ochr yn ochr â thimau datblygu economaidd

Partneriaethau Awdurdod Sylfaenol: Cymorth Rheoleiddio sy'n Galluogi Twf

Mae Partneriaethau Awdurdod Sylfaenol yn gytundebau ffurfiol rhwng busnesau ac awdurdodau lleol sy'n darparu cyngor rheoleiddiol sicr, wedi'i deilwra ar safonau masnach, iechyd yr amgylchedd, diogelwch tân, a gofynion rheoleiddiol eraill.

Unwaith y bydd busnes yn ymuno â Phartneriaeth Awdurdod Sylfaenol, rhaid i'r holl reoleiddwyr lleol eraill ledled Cymru a Lloegr barchu'r cyngor rheoleiddio a ddarperir gan eu Hawdurdod Sylfaenol. Mae hyn yn creu sicrwydd: gall busnesau ehangu gyda hyder, gan wybod bod eu dull cydymffurfio yn sicr ac na fydd yn cael ei danseilio gan ganllawiau sy'n gwrthdaro â gwahanol gynghorau.

Ar hyn o bryd mae Cymru yn cynnal 81 o Bartneriaethau Awdurdod Sylfaenol a ddarparodd bron 1,700 awr o gyngor busnes arbenigol yn ystod 2023-24. Mae hyn yn cynrychioli twf cyson o 68 o bartneriaethau yn 2020-21, gan ddangos hyder busnesau yn y cynllun.

Mae Cydwasanaethau Rheoliadol (SRS) (sy'n cwmpasu Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg) wedi dod i'r amlwg fel darparwr Awdurdod Sylfaenol mwyaf actif ac arloesol Cymru, gan ennill cydnabyddiaeth gan feirniaid a nododd: *"Mae SRS wedi cael effaith fawr mewn cyfnod byr o amser. Mae ei egni a'i frwdfrydedd i gynnig gwasanaethau awdurdod sylfaenol o ansawdd uchel yn ganmoladwy."*

Manteision i Fusnesau:

- Sicrwydd Cyfreithiol: Rhaid i gyfarwyddyd gan yr Awdurdod Sylfaenol gael ei barchu gan yr holl reoleiddwyr lleol eraill, gan ddileu dehongliadau gwrthgyferbyniol
- Un Man Cyswllt: Mae busnesau yn gweithio gydag un Awdurdod Sylfaenol yn hytrach na rheoli cysylltiadau â dwsinau o wahanol gynghorau
- Cymorth Rhagweithiol: Mynediad at weithwyr Safonau Masnach proffesiynol profiadol cyn i broblemau godi, gan osgoi camgymeriadau costus a difrod i enw da
- Cost Effeithlonrwydd: Mae buddsoddi mewn cyngor arbenigol yn adennill ei hun drwy osgoi camau gorfodi a phrosesau rheoleiddio symlach

Buddion i Gymru:

- Cynhyrchu Incwm Cynaliadwy: Awdurdod Sylfaenol yn adennill costau, gan gynhyrchu oddeutu £157,931 ar gyfer gwasanaethau yng Nghymru yn 2024-25
- Cudd-wybodaeth Busnes: Mae ymgysylltiad parhaus yn darparu cudd-wybodaeth amhrisiadwy am risgiau cydymffurfio ac arferion busnes sy'n dod i'r amlwg
- Sicrhau Chwarae Teg: Sicrhau mai cydymffurfiaeth wirioneddol yw'r safon, gan ddiogelu busnesau cyfrifol rhag cystadleuaeth annheg gan y rhai sy'n torri corneli
- Denu Buddsoddiad: Mae busnesau yn ystyried cefnogaeth reoleiddiol fel gwahaniaethydd allweddol wrth ddewis ble i sefydlu gweithrediadau. Gall Cymru lleoli ei hun fel yr amgylchedd rheoleiddiol mwyaf cyfeillgar i fusnesau yn y DU

Cyfle Ehangu Strategol:

Ar hyn o bryd mae Cymru yn cynnal 81 o bartneriaethau. Gallai buddsoddiad strategol wrth hyrwyddo a chefnogi ehangu Awdurdod Sylfaen:

- Cynyddu partneriaethau ddwywaith neu dair dros bum mlynedd - targedu 150-200 o bartneriaethau erbyn 2030
- Cynhyrchu £200,000-400,000 ychwanegol bob blwyddyn mewn incwm adennill costau
- Cefnogi cannoedd yn fwy o fusnesau i weithredu gyda llwybrau rheoleiddio sicr a lleihau cost beichiau rheoleiddiol
- Lleoli Cymru fel prif amgylchedd cymorth rheoleiddiol y DU
- Hyrwyddo amcanion datblygu economaidd a ffyniant Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol

Byddai'r ehangu hwn yn gofyn am fuddsoddiad bach mewn datblygu a marchnata busnes gan wasanaethau Safonau Masnach ond byddai'n sicrhau enillion nid yn unig trwy incwm adennill costau ond hefyd trwy fanteision economaidd ehangach o gefnogi twf busnes, denu buddsoddiad, ac adeiladu marchnadoedd sy'n cydymffurfio.

Galwad i Weithredu

Datblygu'r Gweithlu a Gwasanaethau i'r Dyfodol

Mae'r gronfa brentisiaethau a gynigir yn y manifesto hwn yn mynd i'r afael ag argyfwng demograffig yn y proffesiwn Safonau Masnach. Gyda dim ond 7% o'r staff presennol yn 30 oed neu'n iau, mae Cymru'n wynebu colli arbenigedd yn fuan oni bai bod llwybr strwythuredig ar gyfer pobl ifanc yn ymuno â'r proffesiwn. Mae buddsoddiad prentisiaeth £1-2 miliwn, o'i gymharu â £5 miliwn Lloegr a £1.4 miliwn Gogledd Iwerddon, yn cynrychioli bwlch sylweddol a chyfle clir.

I bleidiau sy'n pryderu am greu swyddi a datblygu sgiliau, mae'r buddsoddiad hwn yn sicrhau canlyniadau gweladwy: hyd at 50 o leodedd prentisiaeth newydd yn cael eu creu dros bum mlynedd, pobl ifanc yn cael eu hyfforddi mewn proffesiwn twf, ac enw da Cymru fel cenedl sy'n buddsoddi i ddatblygu'r gweithlu.

I Lywodraeth Cymru

- Cydnabod y gwasanaeth Safonau Masnach fel buddsoddiad strategol, nid cost. Mae pob punt a fuddsoddir yn darparu £12 mewn niwed wedi'i atal
- Cyflwyno'r achos i Lywodraeth y DU i Gymru dderbyn cyfran deg o gyllid wedi'i glustnodi ar gyfer meysydd gorfodi â blaenoriaeth gan gynnwys tybaco a fêps, porthladdoedd a ffiniau, a diogelu defnyddwyr
- Clustnodi symiau canlyniadol Barnett ar gyfer meysydd blaenoriaeth i sicrhau bod arian yn cyrraedd gwasanaethau rheng flaen
- Buddsoddi yn y gweithlu drwy Gronfa Brentisiaethau bwrpasol i adeiladu piblinell gynaliadwy o dalent
- Gwreiddio Safonau Masnach mewn strategaethau economaidd, cynlluniau twf rhanbarthol, a blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol

I Awdurdodau Lleol

- Blaenoriaethu Safonau Masnach mewn penderfyniadau cyllidebol a chydnabod cyfraniad eich gwasanaeth at flaenoriaethau corfforaethol
- Cydweithio'n rhanbarthol i sicrhau'r effeithlonrwydd a'r gallu mwyaf posibl
- Mesur a chyfleu effaith gan ddefnyddio fframwaith Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol
- Buddsoddi mewn prentisiaethau i adeiladu gweithlu cynaliadwy

I Aelodau'r Senedd

- Hyrwyddo Safonau Masnach yn eich etholaethau a'ch rhanbarthau - mae'r gwasanaeth yn amddiffyn eich etholwyr rhag sgamiau, masnachwyr twyllodrus a chynhyrchion anniogel bob dydd
- Dal Llywodraeth Cymru i gyfrif ar benderfyniadau cyllido a sicrhau bod Safonau Masnach yn derbyn adnoddau digonol
- Codi ymwybyddiaeth o'r gwaith hanfodol y mae Safonau Masnach yn ei wneud a'r argyfwng sy'n wynebu'r gwasanaeth
- Cefnogi consensws trawsbleidiol ar yr angen am fuddsoddiad yn y gwasanaeth cyhoeddus hanfodol hwn

I'r Holl Bleidiau Gwleidyddol

- Cynnwys ymrwymïadau clir i fuddsoddi mewn Safonau Masnach yn eich manifestos ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026
- Cydnabod bod Safonau Masnach yn gweithredu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ac yn cyfrannu at flaenoriaethau trawsbynciol sy'n cefnogi iechyd, yr economi, atal troseddau a diogelu defnyddwyr
- Ymrwymo i glustnodi cyllid ar gyfer meysydd gorfodi â blaenoriaeth
- Cefnogi datblygiad y gweithlu drwy brentisiaethau a hyfforddiant

Casgliad: Buddsoddi yn Nyfodol Cymru

Mae gwasanaethau Safonau Masnach awdurdodau lleol Cymru ar groesffordd. Ar ôl degawd o doriadau, mae'r gwasanaeth wedi'i ymestyn i bwynt torri. Ac eto ni fu'r angen erioed yn fwy - o daclo fêps anghyfreithlon sy'n niweidio pobl ifanc, i amddiffyn oedolion bregus rhag sgamiau, i atal cynhyrchion anniogel rhag cyrraedd trwy borthladdoedd Cymru.

Mae'r Dystiolaeth yn Glir:



£12 yn cael ei ddychwelyd am bob £1
a fuddsoddwyd



£43 miliwn
mewn niwed wedi'i atal yng Nghymru 2024-25



142 o flynyddoedd
o ddedfrydau carchar a roddwyd gan y llysoedd i droseddwyd a erlynwyd yn llwyddiannus



Llwyddiant profedig
wrth amddiffyn defnyddwyr, cefnogi busnesau, ac atal argyfyngau

Mae'r Dewis yn Glir:

- Buddsoddi yn awr i adfer capasiti a meithrin gweithlu cynaliadwy
- Neu dderbyn gallu sy'n dirywio a mwy o niwed i gymunedau Cymru

Mae'r Cyfle yn Glir:

- Gydag etholiad Senedd 2026 ar y gorwel, gall pob plaid ddangos ymrwymiad i ddiogelu defnyddwyr a chefnogi marchnadoedd teg
- Gall pleidiau sy'n ymrwymo i fuddsoddi yn Safonau Masnach ym manifestos 2026 ddangos camau pendant ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar bob cartref yng Nghymru - diogelu defnyddwyr, cymorth busnes, ac atal troseddu.
- Gall Cymru arwain y DU wrth gynydd Safonau Masnach fel buddsoddiad strategol mewn economi llesiant

Mae'r Amser yn Glir:

- Gweithredu'n awr cyn colli arbenigedd drwy ymddeoliad
- Gweithredu'n awr cyn i argyfwng arall amlygu bylchau mewn gorfodi
- Gweithredu'n awr i adeiladu a gwneud y gwasanaeth Safonau Masnach yng Nghymru yn barod i wynebu'r anghenion a'r heriau sydd o'n blaenau



Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales